Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Crynodeb

## Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru



# Y dyfodol a ragwelir erbyn 2030

## Os byddwn yn cydweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn, a hynny er budd holl ddinasyddion Cymru, rydym yn rhag-weld y llwyddiannau canlynol erbyn 2030:

- Bydd amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch wedi'u gwreiddio ar draws y system penodiadau cyhoeddus.
- Ni fydd angen strategaeth mwyach i wneud yn siŵr bod Byrddau'n amrywiol ac yn gynhwysol.
- Bydd gweddill y DU a thu hwnt yn ein parchu am sut rydym wedi newid tryloywder a diwylliant ein systemau penodi gan ganfod, gwahodd a meithrin yr holl sgiliau, gwybodaeth a thalentau.
- Bydd Gweinidogion a holl wleidyddion pob plaid yn ategu pwysigrwydd y gwaith hwn, gan ei gefnogi a'i sbarduno'n barhaus – ni fyddant yn rhoi'r gorau i wahodd a meithrin yr **holl** dalent.
- Roedd gennym fodelau rôl a oedd yn gwneud i ni deimlo bod hyn ar ein cyfer ni.
- Ni fydd rhanddeiliaid a'r llywodraeth yn cyfeiliorni – bydd ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn ei sbarduno dros y blynyddoedd, gan fynd i'r afael â'r anawsterau sy'n codi.
- Ni fydd angen gofyn a oes gennym y niferoedd cywir ar gyfer y cydbwysedd cywir – bydd Byrddau'n amlwg yn wahanol.
- Bydd lleisiau pobl anabl a grwpiau eraill yn cael eu clywed yn gydradd – "dim rhagfarn ddiarwybod plîs...ac os cawn ein herio, ni fyddwn yn mynd i deimlo mai ni yw'r broblem".
- Mae ein strategaeth yn ddogfen fyw sy'n cael ei monitro a'i haddasu'n flynyddol, ac yn cynnwys canlyniadau mesuradwy.
- Rydym wedi cyflwyno newidiadau sy'n gynaliadwy ac wedi'u cymeradwyo gan yr arweinwyr.

Delwedd y clawr: © Natasha Hirst @HirstPhotos

# Strategaeth 2020-2023

## Gweledigaeth

**Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru**

Gwneud yn siŵr bod prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru'n defnyddio holl dalentau, lleisiau a phrofiadau uniongyrchol pobl Cymru, ac felly eu bod yn fwy cynhwysol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bob dinesydd.



## Pwrpas

Cynnal nifer uwch y merched ar Fyrddau a chynyddu nifer y bobl anabl, BAME a rhai  eraill sy'n cael eu tangynrychioli a benodir i Fyrddau, er mwyn i Fyrddau adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac felly'n gwella'r broses gwneud penderfyniadau.



# Ein gwerthoedd




## Tryloywder

Rydym yn agored ynghylch popeth a wnawn, felly nid oes unrhyw ddirgelwch o  ran pwy wnaeth beth a pham, a sut rydym yn gwahodd, yn meithrin ac yn recriwtio talent o bob rhan o'n cymdeithas.

## Uniondeb

Rydym yn cydnabod ein rhagfarn ddiarwybod ac yn ei monitro.





## Cynhwysiant

Rydym yn cynnwys pawb ac yn gwerthfawrogi, yn parchu ac yn croesawu'n gadarnhaol yr heriau a ddaw o syniadau, safbwyntiau a phrofiadau uniongyrchol amrywiol.

# Ein 5 Nod

## Nod 1: Casglu a rhannu data

Casglu a rhannu data cyson, dibynadwy, ansoddol a meintiol.

## Nod 2: Sicrhau cyflenwad cyson, cadarn

Creu cyflenwad cyson, cadarn o aelodau Bwrdd posibl drwy godi ymwybyddiaeth a chefnogi talent.

## Nod 3: Sicrhau arferion recriwtio agored a thryloyw

Datblygu, profi a sefydlu prosesau recriwtio cynhwysol a thryloyw newydd.

## Nod 4: Sicrhau ymrwymiad Byrddau

Gwneud yn siŵr bod holl aelodau'r Bwrdd yn fedrus ac yn hyddysg ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Nod 5: Cryfhau'r arweinyddiaeth

Sicrhau a chynnal ymrwymiad yr arweinyddiaeth.

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar arferion da Byrddau ar hyn o bryd, y gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu nifer y merched ar Fyrddau, ac adolygiad 2018[1] a oedd yn edrych ar sut mae agor y broses penodiadau cyhoeddus i bobl anabl. Roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ymgysylltiad â rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus, y rhai sy'n cyfrannu at bolisïau cydraddoldeb, a'r rheini sy'n gweithio yn y byd academaidd. Mae'r adolygiad yn nodi rhaglen ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2023 ac yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer 2030 os caiff y Strategaeth ei gweithredu'n llawn. Yn ôl yr adolygiad, mae'n hanfodol fod y daith hon yn seiliedig ar y gwerthoedd blaengar cywir.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen i ddefnyddio holl dalent Cymru ac yn cyflwyno nodau a chamau gweithredu sylfaenol, sydd wedi'u hanelu at sicrhau proses penodiadau cyhoeddus fwy cynhwysol ac at gefnogi newid diwylliannol. Mae'r camau gweithredu wedi cael eu prisio, a byddant yn cael eu gwerthuso. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu datblygu i helpu i asesu'r cynnydd ac amserlenni'n effeithiol dros y blynyddoedd cyntaf, gan anelu at gynnydd sylweddol erbyn 2023. Hefyd mae risgiau a'u mesurau lliniaru wedi cael eu nodi.

Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud, y rhesymeg dros waith pellach, a'r heriau sydd wedi'u hwynebu. Mae hyn oll wedi arwain at y pum nod. Dyma ei strwythur:


| | **Tudalen** |
|---|---|
| 1. Data Amrywiaeth | 5 |
| 2. Yr Achos dros Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Penodiadau Cyhoeddus | 6 |
| 3. Heriau | 6 |
| 4. Pum Nod | 7 |
| 5. Effaith | 8 |


Y bwriad yw canolbwyntio ar bobl anabl a BAME am y ddwy flynedd nesaf, gyda'r nod o ddefnyddio'r hyn sydd wedi'i ddysgu i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli yn y blynyddoedd diweddarach.

Er bod y strategaeth yn canolbwyntio ar waith Byrddau a reoleiddir yn unig, y gobaith a'r bwriad yw annog cyrff nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, grwpiau gorchwyl, elusennau ac eraill i fabwysiadu'r arferion da y mae'n eu disgrifio.

## 1. Data Amrywiaeth

Mae cynnydd calonogol eisoes wedi'i wneud o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn bywyd cyhoeddus. Yn ôl adroddiad blynyddol Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU, roedd 63.5% o'r rheini a benodwyd neu a ailbenodwyd i Fyrddau yng Nghymru yn 2018/19 yn ferched. Fodd bynnag, mae pryder ynglŷn â chyfran isel y bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) (3.0%), a'r bobl sy'n ystyried eu hunain yn anabl (5.1%) a benodir i Fyrddau yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn nodi mai 5% yw'r boblogaeth BAME yng Nghymru, ac mai 22% yw cyfran yr oedolion o oedran gweithio sy'n anabl.

Roedd Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, a Chomisiynydd y DU yn croesawu'r cynnydd o ran penodi ymgeiswyr BAME, ond yn pryderu hefyd bod y dystiolaeth o ran ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn llai cadarnhaol. Roedd y ddau hefyd yn tynnu sylw at fethiant i drosi nifer uwch y bobl amrywiol sy'n cael eu cynrychioli ar lefel Bwrdd yn nifer uwch o Gadeiryddion o'r grwpiau hyn.

### Ein Gwaith Ymchwil Ni

Cafodd dros 45 o unigolion sy'n rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus, ac o'r maes polisi cydraddoldeb ehangach, eu cyfweld fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth i'r Strategaeth hon. Roedd y gwaith ymgynghori'n cynnwys digwyddiadau

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/760721/Lord-Holmes-Review-full.pdf

i randdeiliaid gyda chynrychiolwyr o Fyrddau, sefydliadau cydraddoldeb a phartneriaid eraill, a digwyddiad â'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus. Mae'r canlyniadau wedi'u hadlewyrchu yng ngweddill y crynodeb hwn.

## 2. Yr Achos dros Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Strategaeth wedi'i gwreiddio yn yr achosion moesol, deddfwriaethol a busnes cryf dros amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r **achos moesol** yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol, cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a democratiaeth: dylai'r rhai sy'n llywodraethu Cyrff Cyhoeddus gynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mae'r **achos deddfwriaethol** yn cynnwys, ymysg eraill, Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n dadlau o blaid gweithredu i unioni anghydraddoldeb a chreu Cymru decach.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys manylion gwaith ymchwil sy'n amlinellu **buddion busnes** clir. Mae'n glir bod Byrddau amrywiol:

- yn gwneud yn siŵr eu bod yn manteisio ar yr holl wybodaeth, talent a chreadigrwydd sydd ar gael;
- yn gwrando ar yr ystod lawn o bobl a phrofiadau uniongyrchol ymysg y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliad, gan arwain at ddealltwriaeth fwy llawn o sut maen nhw'n gweithredu'n ymarferol ac, o ganlyniad, gwell penderfyniadau strategol sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu
- yn gallu bod yn fwy creadigol a chryf wrth gyflawni eu rolau allweddol yn cefnogi ac yn herio'r unigolion mewn swyddi uchel mewn sefydliadau
- yn herio ac yn gofyn cwestiynau syml i godi materion a allai gael eu hanwybyddu fel arall.

Mae'n glir felly nad mater moesol a gwleidyddol yn unig yw gwella amrywiaeth a chynhwysiant; ond un economaidd hefyd. Yn adolygiad 2018, a oedd yn edrych ar sut mae agor y system penodiadau cyhoeddus i bobl anabl, dywed yr awdur: "This would be using the full talents of all in our society – not just of the elite". Yn ei bapur ar BAME yn y gweithle, mae'r Athro Emmanuel Ogbonna o Brifysgol Caerdydd yn cyfeirio at "ffrwydrad" y boblogaeth yn y dyfodol a fydd yn deillio o gefndiroedd amrywiol ac a fydd yn cynnig cronfa dalentau ymysg cenedlaethau'r dyfodol. Mewn darlith i arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ddiweddar, dywedodd mai £24 biliwn y flwyddyn yw'r amcangyfrif o'r budd economaidd posibl i'r DU yn sgil cynrychiolaeth BAME lawn.

Mae ymchwil arall yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu dulliau i nodi, datblygu a hyrwyddo amrywiaeth ym mhob sefydliad er mwyn gwneud yn siŵr, dros amser, bod cyflenwad cyson o ymgeiswyr galluog ar gyfer y Bwrdd, a bod eu rhengoedd o reolwyr a swyddogion gweithredol yn adlewyrchu pwysigrwydd amrywiaeth i'w sefydliad yn briodol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus, sectorau eraill a chymunedau'n ehangach yn wynebu heriau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol enfawr. Mae'n hollbwysig bod Byrddau Cyrff Cyhoeddus yn elwa ar safbwyntiau'r ystod lawn o bobl sydd yng Nghymru yn eu holl amrywiaeth.

## 3. Heriau

Roedd yr ymchwil yn tynnu sylw at nifer o heriau y mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Un o'r heriau hyn yw diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymysg y cyhoedd ynghylch Cyrff Cyhoeddus a'u swyddogaethau. Mae hyn yn arbennig o amlwg i'r rheini nad ydynt yn rhan o 'gylch trafod' traddodiadol y sector cyhoeddus – pobl yn y trydydd sector yn aml – ond hefyd pobl yn y sector preifat. Mae hyn yn arwain at gred nad yw unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli "yn bodoli yng nghyflenwad cyson y gwasanaethau cyhoeddus". Mae'r Strategaeth a'i chynllun gweithredu'n dadlau dros weithgarwch allgymorth sylweddol a llwyfan cyfathrebu gwell i godi ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus er mwyn datrys y problemau hyn.

Her arall yw nad oes gennym ddata sylfaenol ddigon cadarn, gan gynnwys data lleoliad a data symudedd cymdeithasol,

i osod targedau ystyrlon i Gymru. Mae gosod targedau ar gyfer merched ar Fyrddau wedi helpu i dynnu sylw at anghenraid a chyfeiriad, ond nid oes targedau tebyg ar gyfer pobl anabl a BAME, na grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli. Mae'r Strategaeth a'i chynllun gweithredu'n cynnwys gwaith i ddatblygu llwyfan data mwy cadarn, gan gynnwys edrych ar sut gellir gosod targedau.

## 4. Pum Nod

Yn sgil llawer o gyfweliadau â randdeiliaid allweddol, nodwyd pum nod a gafodd eu profi gyda'r rheini a oedd yn bresennol mewn digwyddiad i randdeiliaid ym mis Medi 2019. Yn ystod y digwyddiad hwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddychmygu sut olwg fydd ar Fyrddau yn 2030 o bosibl.

Drwy'r gwaith hwn cynhyrchwyd datganiad o ddiben ar gyfer y strategaeth, yn ogystal â chenhadaeth sy'n ei hadlewyrchu a gwerthoedd sy'n sail iddi. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn y crynodeb ar ddechrau'r papur hwn. Hefyd yn ystod y drafodaeth, cafodd y pum nod a nodwyd i ddechrau eu mireinio, a chafodd rhwystrau a chyfleoedd eu nodi mewn cysylltiad â chyflawni'r nodau hyn. Cafodd y safbwyntiau hyn eu datblygu ymhellach mewn digwyddiad ymgynghori yn y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2019, a arweiniodd at fersiwn derfynol y Strategaeth. Arweiniodd y gwaith cyd-gynhyrchu hwn at y pum nod canlynol, sydd wedi'u mireinio:

**NOD 1**
Casglu a rhannu data.

**NOD 2**
Creu cymuned o unigolion sydd â diddordeb, sy'n ymwybodol ac sydd bron yn barod i fod yn aelodau o Fwrdd (hy creu cyflenwad cyson, cadarn).

**NOD 3**
Sicrhau arferion recriwtio agored a thryloyw.

**NOD 4**
Sicrhau ymgysylltiad Byrddau.

**NOD 5**
Cryfhau'r arweinyddiaeth.





Mae'r pum nod hyn yn ategu ei gilydd fel a ganlyn. Y prosesau craidd ar gyfer penodiadau amrywiol yw'r rheini sy'n creu cyflenwad cyson, cadarn o ymgeiswyr amrywiol (nod 2) sydd wedyn yn cael eu trin yn deg, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ystod arferion recriwtio agored a thryloyw (nod 3). Mae diwylliant ac arferion y Byrddau eu hunain yn hollbwysig i lwyddiant y prosesau hyn ac i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n cael eu recriwtio'n gallu cynnig y gwerth mwyaf posibl i'w Bwrdd, a'u bod yn cael profiad cadarnhaol: dyna pam mae angen sicrhau ymgysylltiad Byrddau (nod 4). Ni fydd hyn yn digwydd o gwbl, yn enwedig newid diwylliannau, heb arweinyddiaeth gref gan Weinidogion, Cadeiryddion, uwch weision sifil ac uwch arweinwyr eraill (nod 5). Ar gyfer yr holl gamau hyn, mae angen arweiniad a chymhellion data o ansawdd da sy'n cael eu rhannu'n eang (nod 1).

Mae gan bob nod gyfres o gamau gweithredu cysylltiedig wedi'u hamlinellu ar gyfer 2020-2021 i ddechrau. Bydd y nod wedi'i gyflawni erbyn hynny. Mae'r Strategaeth yn amlinellu pob nod yn ei dro, gan gyflwyno ei bwrpas, ei ofynion, ei gyfleoedd a'i heriau, a chynnig camau gweithredu lefel uchel yn ôl trefn flaenoriaeth lle bo hynny'n bosibl.

### Canoli penodiadau cyhoeddus

Cafodd y broses penodiadau cyhoeddus ei chanoli yn 2018. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o weithredu'r Strategaeth yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o benodiadau cyhoeddus a reoleiddir yn cael eu gwneud ar y cyd bellach, dan arweiniad yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Mae hyn yn cyflwyno nifer o fanteision, gan gynnwys gallu nodi a chynllunio penodiadau'n well, a hwyluso dull mwy cyson o ddarparu. Caiff hyn ei ategu gan adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses penodiadau cyhoeddus, a fydd yn cynnwys canllawiau a thempledi wedi'u diweddaru. Mae penodi yn y modd hwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses penodiadau cyhoeddus yn cael eu goruchwylio'n ganolog.

## 5. Effaith

Bwriad y Strategaeth hon yw cynyddu nifer y rheini o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar Fyrddau, a hefyd hyrwyddo cynhwysiant pawb sy'n gwasanaethu ar Fyrddau er mwyn caniatáu iddynt gyfrannu'n llawn gan ddefnyddio eu doniau unigryw. Bydd Byrddau amrywiol yn gwella ac yn cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau, ac yn cyflwyno amrywiaeth uwch o brofiadau uniongyrchol i drafodaethau. Bydd hefyd yn gwella ansawdd, tôn a diwylliant trafodaethau Bwrdd, yn cefnogi cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau, ac yn ehangu llywodraethu da. Bydd hyn oll yn arwain at well allbynnau a chanlyniadau i BOB dinesydd drwy ddarpariaeth well sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau amrywiol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020
WG39804 ISBN digidol 978-1-80038-202-2